OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 3395 (Cy. 345)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Tredegar, Blaenau Gwent i Gyfnewidfa Rhymni, Caerffili) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Rhagfyr 2014* |
| *Yn dod i rym* | *19 Rhagfyr 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig mewn darnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar neu gerllaw'r ffordd.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall **(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, dehongli a chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Rhagfyr 2014. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Tredegar, Blaenau Gwent i Gyfnewidfa Rhymni, Caerffili) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2014.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n ysgogi'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol a fydd yn cychwyn am 21:00 o'r gloch ar 19 Rhagfyr 2014 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o waith wedi eu symud ymaith;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o'r gefnffordd o Gylchfan

Tredegar ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i Gyfnewidfa Rhymni ym Mwrdeistref Sirol Caerffili a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, na pheri na chaniatáu i unrhyw feic pedal gael ei reidio yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff unrhyw gerddwr, yn ystod cyfnod y gwaith, fynd yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, a 5 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y gwaharddiadau y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny yn weithredol.

**Parhad y Gorchymyn hwn**

**7.** Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 18 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 12 Rhagfyr 2014

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

## YR ATODLEN

1) Y darn hwnnw o brif gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin, sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Tredegar, ger Nant-y-bwch ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent hyd at drwyn y slipffordd ymuno tua'r gorllewin yng Nghyfnewidfa Rhymni ym mwrdeistref Sirol Caerffili.

2) Y darn hwnnw o brif gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyn y slipffordd ymadael tua'r dwyrain yng Nghyfnewidfa Rhymni ym mwrdeistref Sirol Caerffili hyd at ei chyffordd â Chylchfan Tredegar, ger Nant-y-bwch ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.